

❖ **AR DAITH, ‘... WEDI I IESU GAEL EI ENI...’**

A fyddwch chi’n teithio ymhell i ddathlu’r Nadolig eleni?

Gŵyl y teulu ydy’r Nadolig yn ôl traddodiad. Gŵyl pan fydd y teulu yn dod at ei gilydd i ddathlu. Gan fod llawer iawn o deuluoedd ar wasgar heddiw, fe glywir yn aml am bobl yn teithio pellter i fod gyda’u teuluoedd adeg y Nadolig, ac yn teithio er mwyn bod ‘gartref dros yr ŵyl’. Serch hynny, rhaid cofio yr adeg hon o’r flwyddyn am unigolion sydd yn dathlu’r Nadolig ar eu pen eu hunain ymhell o’u cartref, ynghyd â’r miloedd sy’n ddigartref.

Bu ’na deithio adeg y Nadolig cyntaf hefyd. Teithiodd Mair a Joseff a theithiodd y Doethion a’r Bugeiliaid. Ond sylwn nad teithio adref a wnaeth y sawl oedd ar daith adeg y Nadolig cyntaf, ond teithio oddi cartref, gan adael eu teuluoedd, eu cartrefi a’u hardaloedd.

Cyn i Iesu gael ei eni bu Mair a Joseff yn teithio, ond bu ’na deithio ‘wedi i Iesu gael ei eni...’ hefyd.

Teithiodd y Bugeiliaid – y bobl gyffredin hyn a’r cyntaf i glywed y cyhoeddiad bod y Meseia wedi ei eni – teithio ar unwaith heb betruso dim i weld y peth yr hysbysodd yr Arglwydd hwy amdano. Bu eu ‘return journey’ o grud y baban Iesu ychydig yn wahanol. Dychwelasant adref yn gryfach eu ffydd; gyda sioncter yn eu cerddediad a llawenydd yn eu calonnau ‘gan ogoneddu a moli Duw’. Bu eu taith oddi cartref y Nadolig cyntaf yn fodd i ddwyn llawenydd newydd i’w bywydau ac ystyr newydd i’w gwaith.

Teithiodd y Doethion oddi cartref hefyd ‘wedi i Iesu gael ei eni’, a hwythau wedi gadael eu rhan hwy o’r wlad a gadael eu llyfrau a’u gwaith er mwyn mynd i chwilio am ddoethineb mwy. Ac er yr holl wybodaeth oedd yn eu meddiant, roeddent yn dyheu am ddoethineb, ac o Dduw y daeth doethineb. Yn y baban Iesu, Mab Duw, y bu i’r Tri Gŵr Doeth ddarganfod eu doethineb. Wedi bod wrth draed Iesu, aeth y tri ohonynt adref ‘ar hyd ffordd arall’. ‘Detour’. Ffordd, heol arall siŵr, er mwyn osgoi’r Brenin Herod, ond yn sicr, fe ddychwelasant adref ar hyd ffordd arall o feddwl hefyd. Ffordd newydd – pobl newydd ydy’r bobl sy’n ymddiried yn Nuw, ac yn derbyn oddi wrth y Rhoddwr Mawr ei Hun. Ni bu eu taith hwythau oddi cartref y Nadolig cyntaf yn ofer chwaith, gan iddynt ddod o hyd i ystyr newydd i’w bywydau.

Cymeriad arall a fu’n teithio oddi cartref y Nadolig cyntaf hwnnw oedd Herod. Ond nid teithio ar droed nac mewn cerbyd a wnaeth Herod, ond teithio ar hyd gwlad yn ei ddylanwad mileinig. Cynrychioli’r ‘hyn sydd am dministrio’ a wnaeth Herod. Ac mae ’na elfen mewn bywyd sydd am dministrio’r da o hyd gwaetha’r modd. Ond ni ellir dinistrio’r Gwir. Ac er holl ymdrechion Herod i orchfygu’r Meseia, ni lwyddodd i gael y gorau ar Fab Duw. Mae’r Gwirionedd yn aros. ‘Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.’

A fyddwch chi yn teithio y Nadolig hwn? P’un ai byddwch yn teithio pellter, neu’n dymuno aros gartre, cofiwch fod ’na alw arnom oll i deithio oddi cartref dros yr ŵyl – teithio mewn meddwl ac ysbryd – at breseb Bethlehem, a gweddiwn y bydd ein ‘return journey’ o’r preseb hwnnw yn un llawn llawenydd, wedi i ni fagu sioncter yn ein cerddediad ac ystyr newydd i’n bywydau.

‘Tua Bethlem dref awn yn fintai gref ac addolwn Ef.’

Beti-Wyn James